
# DANGOSFWRDD CIG COCH

## Hydref – Rhagfyr 2018

FARMING connect cyswllt FFERMIO

**% o'r holl weithgareddau yn ystod y cyfnod sy'n berthnasol i'r sector cig coch**




## Rhwydwaith Arddangos

### Canolbwyntio ar Faeth y Famog

Yn ystod 2018, mae Aled Haynes, sy'n ffermio ar safle ffocws Trefnant Isaf ger y Trallwng, wedi bod yn mynd i'r afael â maeth ei ddiadell o 750 o famogiaid Miwl er mwyn gwella cynhyrchiant a pherfformiad.


Dyma brif ganlyniadau'r prosiect:

- Roedd y diet TMR a gyflwynwyd i'r mamogiaid cyn ŵyna, a oedd yn cynnwys soia ac indrawn, wedi gwella cymeriant
- Roedd gan y mamogiaid ddigonedd o laeth ac roedd nifer yr ŵyn a oedd yn cyrraedd pwysau targed o 20kg yn 8 wythnos oed wedi cynyddu o 111 yn 2017 i 153 yn 2018
- Roedd ŵyn croes wedi tyfu'n dda hyd at ddiddyfnu yn 12 wythnos oed, gan gyrraedd 350g i ŵyn unigol a 300g i efeilliaid, gan olygu eu bod wedi gorgyrraedd y pwysau targed o 30kg wrth ddiddyfnu.




### Canolbwyntio ar Bori Cylchdro

Y nod oedd datblygu system aeafu ar laswellt ac o ganlyniad i ddiweddaru mapiau a mesuriadau'r caeau, sefydlwyd cynllun pori cywir ar gyfer yr hydref a'r gaeaf.




Roedd mesuriadau'r borfa yn dangos bod 80 diwrnod o bori ar gael ar gyfer mamogiaid beichiog a byddai angen silwair ychwanegol o ganol Ionawr.

### Canolbwyntio ar Iechyd y Ddiadell

Casglwyd samplau ysgarthion gan 14 o famogiaid i'w difa ar fferm College Farm er mwyn canfod statws iechyd cyffredinol y ddiadell. Dyma'r canlyniadau:

- Cyfrif wyau llyngyr y criw – sero
- Caseous lymphadenitis – negyddol
- Llyngyr yr iau – sero (CLA)
- Johne's – negyddol
- Maedi visna – un canlyniad positif

Sganio ysgyfaint y mamogiaid gydag offer uwchsain yw'r ffordd orau o ganfod OPA ac o'r 14 mamog, roedd gan 2 ohonynt diwmor ar yr ysgyfaint.





Mae'r llun uchod yn dangos y sgan uwchsain a'r ardaloedd golau yw ble mae'r tiwmor.

### Canolbwyntio ar Fynegai Lloia

Mae prosiect ar safle arddangos Cae Haidd bellach wedi dwyn ffrwyth gan fod y mynegai lloia wedi lleihau o 420 diwrnod i 370 diwrnod dros y tair blynedd ers iddynt fod yn ymwneud â phrosiect Cyswllt Ffermio.

Mae defnyddio system o bell i ganfod buwch yn gofyn tarw sy'n golygu rhoi coleri ar bob buwch yn monitro gweithgaredd, bwydo ac amser cnoi cil, gyda newidiadau amlwg mewn ymddygiad yn dod i'r amlwg wrth i'r fuwch ddechrau gofyn tarw.

Mae defnyddio'r coleri wedi helpu i wella'r broses o ganfod buwch yn gofyn tarw, lleihau'r bwlch lloia a thynhau'r cyfnod lloia. Mae pob un o'r gwelliannau hyn wedi arwain at reolaeth haws a mwy o gynhyrchiant.

## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd:

- DEFNYDDIO TECHNOLEG HIDLO TRWY BILEN I LEIHAU LLYGREDD AMAETHYDDOL
- RHEOLI SLYRI YN WELL: DEFNYDDIO TECHNOLEG GWAHANU
- PLASTIGION BIODDIRADDADWY AT AMAETHYDDIAETH

Taflenni gwybodaeth a gynhyrchwyd:

- MAETH Y FAMOG YN YSTOD BEICHIOGRWYDD
- RHEOLI TAFOL
- RHEOLI RHEDYN

## Grwpiau Trafod

**97** GRŴP TRAFOD CIG COCH gyda **692** O FYNYCHWYR

**Nifer y Grwpiau Trafod Cig Coch: 58**

## Astudiaeth Achos

Bu Jonathan Birnie o gwmni Birnie Consulting yn Iwerddon yn ymweld â nifer o grwpiau trafod cig coch yng Nghanolbarth Cymru i roi trosolwg o'r canlynol:

- Galw defnyddwyr am gig coch at y dyfodol
- Deall gwahanol ofynion
- Cynyddu gwytnwch
- Sut i greu cymuned gynaliadwy
- Cynnydd mewn cynhyrchiant

Bu Jonathan yn trafod pynciau gan gynnwys sut fydd defnyddwyr yn edrych erbyn 2030, sut all technoleg chwarae rhan er mwyn newid ymddygiad a beth fydd y gofynion ar ffermwyr at y dyfodol.

Y prif negeseuon oedd:

- Bydd defnyddwyr yn galw am ansawdd a blas yn ogystal â chanlyniadau onest a moesegol o'r diwydiant
- Bydd lles anifeiliaid a bioddiogelwch yn dod yn bwysicach
- Bydd technoleg yn chwarae rhan enfawr o fewn y busnes ffermio o ran agweddau dydd i ddydd yn ogystal â'r modd y bydd y defnyddiwr yn cael mynediad at fwyd
- Bydd newid sylweddol yn digwydd dros y 10 mlynedd nesaf a busnesau sy'n barod i fabwysiadu'r newidiadau hyn fydd yn y sefyllfa orau.

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

**Cynhaliwyd 36 digwyddiad gyda 1073 o fynychwyr**

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

- GWAREDU CLEFYD JOHNE O'CH BUCHES
- GWEITHDY CYFRIF WYAU YSGARTHOL GYDA MOREDUN
- SIOE DEITHIOL GENETEG HCC
- MYND I'R AFAEL Â CHLOFFNI MEWN GWARTHEG
- DEALL TRWYDDEDAU SYMUD, OFFER EID A MEDDALWEDD
- CADW TB ALLAN

*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn ymestyn ar draws sawl sector sy'n dueddol o ddenu ffermwyr o bob sector, gan gynnwys y sector Cig Coch.

## Cymorthfeydd

**Cynhaliwyd 39 Cymhorthfa**

- 10 CYMHORTHFA BUSNES DIGIDOL
- 4 CYMHORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO
- 2 GYMHORTHFA TG
- 4 CYMHORTHFA CYFRYNGAU CYMDEITHASOL
- 7 CYMHORTHFA OLYNIAETH
- 3 CYMHORTHFA OLYNIAETH DIGIDOL
- 6 CYMHORTHFA GYNLLUNIO
- 1 CYMHORTHFA CYNLLUNIO DIGIDOL
- 2 GYMHORTHFA MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO DIGIDOL

## Rhaglen Fentora

**39** FFERMWR CIG COCH NEWYDD YN DEFNYDDIO'R RHAGLEN FENTORA

MAE **20** O FFERMWYR CIG COCH YN CAEL EU MENTORA AR HYN O BRYD

MAE **83%** O'R HOLL FENTAI YN DOD O'R SECTOR CIG COCH

MAE **5%** O'R UCHOD YN FFERMWYR MOCH

**Roedd ffermwyr newydd yn ceisio am gyngor mentora yn ymwneud â nifer o bynciau gan gynnwys:**

- Sefydlu menter moch newydd
- Newid i system sy'n cadw teirw bîff
- Hwsmonaeth anifeiliaid
- Magu gwartheg Limousin pedigri
- Rheoli targedau'r ddiadell
- Olyniaeth

## Mentro

**1** DARPARWR CIG COCH NEWYDD — **6** CEISIWR CIG COCH NEWYDD

**12 PARTNERIAETH CIG COCH** yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd drwy'r Gwasanaeth Cynghori

12 Menter newydd ar y Cyd wedi cael eu sefydlu drwy Mentro

Cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd:

| Lleoliad | Maint y Daliad (hectar) | Sector | Cyfeirnod Mentro |
|---|---|---|---|
| Aberystwyth/ Machynlleth | 267 | Defaid | 105 |
| Llandysul | 92 | Bîff a Defaid (dim gwartheg ar hyn o bryd) | 126 |
| Y Gelli Gandryll | 60 | Bîff a Defaid | 169 |
| Abergele | 100 | Bîff a Defaid | 189 |
| Gŵyr | 80 | Bîff a Defaid | 242 |
| Caerfyrddin | 36 | Bîff a Defaid | 244 |
| Caerfyrddin | 33 | Bîff a Defaid | 407 |
| Abertawe | 18 | Bîff a Defaid | 412 |
| Caerfyrddin | 161 | Defaid | 419 |

## Cyfnewidfa Rheolaeth

Mae **5** ymgeisydd a fu'n llwyddiannus yng Ngham 1 o'r Gyfnewidfa Rheolaeth yn gobeithio ymchwilio i bynciau sy'n ymwneud â chig coch:

- Perfformiad a phroffidioldeb bîff o wartheg godro
- Dulliau newydd o besgi gwartheg bîff, yn ddelfrydol o gnydau cartref a glaswellt
- Pwysigrwydd geneteg yn y diwydiant defaid
- Nematodau gastroberfeddol
- Systemau magu lloi

## Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd 88 achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i unigolion o fewn y sector Cig Coch.

- CYNLLUNIO BUSNES: **29** UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT
- HYFFORDDIANT TECHNEGOL: **27** UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT
- DEFNYDDIO PEIRIANNU AC OFFER: **32** UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT

## E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

- Hanfodion ŵyna
- Cloffni mewn defaid
- Cynllunio Busnes
- Cyllid Fferm

Cliciwch yma am restr lawn o'r modiwlau e-ddysgu sydd ar gael.

## Rhai o'r uchafbwyntiau ar ein Gwefan a'n safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiweddar…

Erthygl Dechnegol:

DEFNYDDIO TECHNOLEG HIDLO TRWY BILEN I LEIHAU LLYGREDD AMAETHYDDOL

### Facebook 20/12/2018

Er gwaethaf pryderon ynglŷn â Brexit heb ddêl neu gyda dêl wael ar gyfer cartrefi a busnesau, mae cartrefi ar draws Caerdydd wedi bod yn paratoi i ddathlu'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd gyda chynnyrch Cymreig o ansawdd uchel o ffermydd wedi'u lleoli ar odrau toreithiog Mynyddoedd Cambria. Mae'n newyddion da i nifer o ffermwyr da byw yng Nghymru sy'n pryderu am gynaliadwyedd hirdymor eu busnesau.

Cliciwch yma i ddarllen mwy.

**Cyrhaeddiad: 5,660  Ymgysylltiad: 325  Hoffi, sylwadau a rhannu: 55**

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government